2 Swyddog Datblygu (dwy swydd llawn amser)

A hoffech weithio gydag un o'r prif fudiadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ar hyd a lled Cymru? Os felly, rydym yn chwilio am 2 unigolyn trefnus ac effeithiol, sydd â'r profiad a'r gallu i gefnogi gwaith y rhwydwaith o 23 Menter Iaith ar draws Cymru i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyflog: £23,166 - £25,694 y flwyddyn (37 awr yr wythnos)

Cytundeb: hyd at Mawrth 2018 yn y lle cyntaf, yn ddibynnol ar gyllid, gyda phosibilrwydd o barhad wedi hynny

Lleoliad: Posibilrwydd o weithio yn swyddfeydd amryw o Fentrau Iaith ar draws Cymru, ond bydd y cyfnod prawf cychwynnol o 6 mis yn Llanrwst, Llandeilo neu Gaerffili

Manylion: Bydd yr unigolion delfrydol â phrofiad perthnasol mewn nifer o'r agweddau a amlinellir yn y swydd ddisgrifiad, ond nid o reidrwydd pob un. Ymysg y prif ddyletswyddau fydd cyfathrebu, trefnu gweithgareddau ac ymgyrchoedd, gweinyddu cyllid, a threfnu hyfforddiant. Bydd yr unigolion llwyddiannus yn hunan-ddisgybledig, brwdfrydig, yn medru cyfathrebu'n dda gyda sgiliau rhyngbersonol ardderchog ac yn meddu ar y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.

Dyddiad cau: 12pm Dydd Llun, 9 Ionawr 2017
Dyddiad cyfweld: 13 Ionawr 2017
Gwybodaeth bellach, swydd ddisgrifiad a ffurflen gais: Iwan Hywel - iwanhywel@mentrauiaith.cymru / (01492) 643 401

Ariennir y swyddi gan Lywodraeth Cymru a'r Mentrau Iaith

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government